

THIRLWALL, CONNOP (1797 - 1875), esgob Tyddewi

Enw: Connop Thirlwall

Dyddiad geni: 1797

Dyddiad marw: 1875

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: esgob Tyddewi

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 11 Chwefror 1797. Ni bydd a fynnom yma â'r g r enwog a'r ysgolhaig mawr hwn ond yn ei gyswllt â Chymru; y mae ysgrif lawn arno yn y *D.N.B.* Penodwyd ef yn esgob Tyddewi yn 1840, a bu gwrthwynebiad mawr i'r penodiad: yn Lloegr, yn herwydd ehangrwydd ei syniadau diwinyddol a gwleidyddol; yng Nghymru, am nad oedd yn Gymro - ymosodwyd yn *Yr Haul* ar y penodiad, a sgrifennodd '[Dewi o Ddyfed](#)' (David James, 1803 - 1871) llythyr cryf at Thirlwall yn erfyn arno wrthod yr esgobaeth, ar y tir na ddylid bod yn esgob yng Nghymru heb fedru Cymraeg - gweler y llythyr yng nghofiant [James](#), 32-9. Eithr nid yn unig ni ddaliodd Thirlwall unrhyw ddig at [David James](#) (cynigiodd archddiaconiaeth iddo yn 1860), ond aeth ati i ddysgu Cymraeg, ac ymhen blwyddyn gallai bregethu yn Gymraeg; cyhoeddwyd cyfrol o'i bregethau Cymraeg, dan olygyddiaeth [E. O. Phillips](#) yn 1877 - gwir mai Cymraeg anystwyth ac annealladwy i'r werin a oedd ganddo. Yr oedd yn esgob egniol a hael. Dywedir iddo rannu £40,000 mewn elusennau, gan gynnwys chwanegu at gyflogau ei bersoniaid tlotaf; symbylodd godi ysgolion, a sefydlu'r coleg hyfforddi yng Nghaerfyrddin; atgyweiriwyd dros 180 o eglwysi'r esgobaeth; ac ymwelodd â phob rhan o esgobaeth eang afrosgo Tyddewi. Eto, ni ddaeth byth yn boblogaidd; g r oeraidd, academiaidd, llym oedd ef, ac ni lwyddodd ef na'i glerigwyr o Gymry i glosio at ei gilydd. Ar y llaw arall, a chofio tueddiadau rhyddfrydig Thirlwall, siomedig fu ei agwedd pan ddaeth [Rowland Williams](#) (1817 - 1870) i drybini - gweler *Life of Rowland Williams*, i, 333-7. Rhwng popeth, ymbellhaodd yn raddol oddi wrth ei glerigwyr, a dibynnai'n gynyddol ar ei archddiaconiaid. Collodd ei olygon, a pharlyswyd ef; ymddeolodd o'i esgobaeth yn 1874, a bu farw yn Bath, 27 Gorffennaf 1875; claddwyd yn abaty Westminster.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

John Morgan, *Four Biographical Sketches Bishop Ollivant, Bishop Thirlwall, Rev. Griffith Jones, Vicar of Llanddowror, and Sir Thomas Phillips, Q.C.; with a chapter on 'The Church in Wales'* (Llundain 1892), 1892

a'r cyfeiriadau eraill uchod

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [52464706](#)

Wikidata: [Q538094](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

